

David Lloyd George

David Lloyd George oedd yr unig Cymro, a'r unig siaradwr Cymraeg i ddal swydd Prif Weinidog Prydain. Caiff ei gofio fel dyn llawn egni, a chanddo nodweddion anghonfensiynol o ran ei gymeriad a'i wleidyddiaeth. Ganwyd David Lloyd George ym 1863, ac fe'i magwyd yn Llanystumdwy yng Ngwynedd o dan ofal ei ewythr, Richard Lloyd, oedd yn wneuthurwr esgidiau. Athro oedd ei dad William, ond bu farw pan oedd David yn ifanc iawn. Yn garedig iawn, cynigodd ei ewythr i'r teulu ymgartrefu gydag ef ym mwthyn Highgate. Bu Richard Lloyd fel ail dad i David, ac roedd yn benderfynol iddo lwyddo. Cymuned glos oedd Llanystumdwy ar y pryd, gydag oddeutu 50 o aneddiadau bychain. Roedd y rhan fwyaf o anghenion yr ardal yn cael eu diwallu o fewn y pentref gan grefftwyr lleol, a'r bwyd yn cael ei gynhyrchu ar ffermydd lleol tan i Reilffordd y Cambrian gyrraedd yno ym 1868.

Bywyd syml a gafodd David yn ystod ei flynyddoedd cynnar, ac roedd wedi arfer â byw yn gynnil. Byddai ef a'i frawd yn helpu'r teulu drwy fynd i nôl dwr, casglu coed tân a dal pysgod yn yr afon Dwyfor. Dechreuodd David fynychu ysgol y pentref pan oedd yn dair a hanner blwydd oed. Gydag anogaeth ei ewythr, dysgodd ei hun i ddarllen drwy astudio hen lyfrau ei dad, a dysgodd am wleidyddiaeth drwy wrando ar y sgysiau yng ngweithdy ei ewythr. Dysgodd hefyd am siarad cyhoeddus drwy wrando ar y pregethwyr yng nghapel y Bedyddwyr, Penymaes, Cricieth.

Er ei fod yn rhywfaint o rebel, rhagorodd David yn ei astudiaethau yn ysgol y pentref a dysgodd Lladin a Ffrangeg hefyd er mwyn bod yn gymwys i hyfforddi fel cyfreithiwr. Ym 1884, pasiodd ei arholiadau olaf yn y gyfraith gydag anrhydedd, a sefydlodd bractis cyfreithiol yng Nghricieth. Ym 1890 fe'i etholwyd yn AS i'r Rhyddfrydwyr dros Gaernarfon, ac yntau yn ddim ond 27 oed. Ym 1906 daeth yn Llywydd y Bwrdd Masnach, a chydabuwyd ef fel gwleidydd medrus. Yn ddiweddarach, cafodd ei ddyrchafu yn Ganghellor a bu'n gyfrifol am gyflwyno'r pensiwn gwladol, ac am ddatgan rhyfel ar dlodi yng 'nghyllideb y bobl' ym 1909. Er mwyn talu am ddiwygiadau cymdeithasol eang, ynghyd ag ehangu'r Llynges, bwriad Lloyd George oedd cyflwyno trethi ar diroedd, a gododd wrychyn tiffeddianwyr ac aristocratiaid. Yn y pen draw, pasiwyd y gyllideb yn cynnwys y mesurau diwygio yn sgil Deddf y Senedd 1911 a waniodd rym Tŷ'r Arglwyddi i rwystro deddfwriaeth o Dŷ'r Cyffredin.




Llyfrau William George

DAVID LLOYD GEORGE



Thomas Thomas - y cyntaf i dderbyn pensiwn



Tudalen o' 'Cyllideb y Bobl- copi wedi ei gyflwyno i Ewyrth Richard



Lloyd George a'i ewyrth Richard



Lloyd George a'i ferch Mair (bu farw'n 17 oed)

Yn ystod y Rhyfel, gweithiodd Lloyd George yn ddiflino fel y Gweinidog dros Arfau, ac ym mis Rhagfyr 1916, derbyniodd wahoddiad i ffurfio llywodraeth. Ef bellaf, yn nhyb y mwyafrif, oedd y dyn cywir i roi hwb hir-ddisgwyliedig i Brydain. Ar ddiwedd y rhyfel, ar Ddiwrnod y Cadoediad ym 1918, datganodd: "Nid dyma'r amser am eiriau. Ni all unrhyw dafod fynegi'r diolchgarwch sy'n llenwi ein

DAVID LLOYD GEORGE

calonnau.” Canmolwyd Lloyd George yn eang fel y dyn a enillodd y Rhyfel Byd Cyntaf, ac ym 1918 enillodd y clymblaid fwyafrif enfawr. Dyma hefyd oedd yr etholiad cyntaf lle caniatwyd i ferched bleidleisio.



Eiddo personol Lloyd George yn yr amgueddfa

Er y llwyddiant hwn, roedd problemau eraill yn ei wynebu. Roedd yn gyndyn i gytuno i annibyniaeth De Iwerddon, a bu dirwasgiad, diweithdra a streiciau yn broblemau yn ystod ei gyfnod fel Prif Weinidog. Roedd pryderon hefyd ei fod yn awyddus i weld rhyfel yn Nhwrci, a chyhuddiadau difrifol y bu iddo werthu anrhydeddau. O ganlyniad, daeth yn llai poblogaidd. Nid oedd y Ceidwadwyr eisiau Lloyd George fel Prif Weinidog, ac ni allai ei blaid ei hun benderfynu a ddylent ei gefnogi ai peidio. Ni ddychwelodd y blaid Ryddfrydol i redeg y llywodraeth fyth eto.

Pan dorrodd y glymblaid gan y Blaid Geidwadol ym 1922, ymddiswyddodd Lloyd George, a threuliodd y 1930au ym myd newyddiaduraeth, yn teithio ac yn ysgrifennu ei gofiannau rhyfel. Wedi hynny, symudodd Lloyd George i Sir Benfro i fyw yn ystod ei ymddeoliad.

Ym 1944, dychwelodd i Lanystumdwy a chafodd ei greu yn Iarll Lloyd-George o Ddwyfor yn yr un flwyddyn. Bu farw yn y flwyddyn ddilynol, yn 82 mlwydd oed. Fe ddewisodd gael ei gladdu yng Nghymru ar lannau'r Afon Dwyfor oedd mor agos at ei galon, a chomisynwyd y pensaer adnabyddus Clough Williams-Ellis i ddylunio'r ardal o amgylch y bedd.



Bedd Lloyd George - Llanystumdwy



DAVID LLOYD GEORGE



Ym 1951, yn bennaf o ganlyniad i ddymuniad ei ail wraig, Frances, penderfynwyd adeiladu amgueddfa fach, barhaol yn Llanystumdwy i roi cartref i'r casgliad o bethau a chreiriau'n ymwneud â Lloyd George. Eto, dyluniwyd Amgueddfa Lloyd George gan Clough Williams-Ellis ac fe'i gorffennwyd ym 1959. Rhodd gan Fwrdeistref Frenhinol Caernarfon oedd y giatiau mawreddog i'r fynedfa. Rhodd gan Gyngor Bwrdeistref Pwllheli oedd y giatiau ym mhen pella'r rhodfa. Agorwyd yr amgueddfa newydd gan frawd Lloyd George, sef Dr. William George ym 1960. Yn wreiddiol, ymddiriedolaeth y pentref oedd yn rhedeg yr amgueddfa, ond bellach Cyngor Gwynedd sy'n ei rhedeg, ac fe'i lleolir yn agos at gartref gwreiddiol Lloyd George, sef Highgate yn Llanystumdwy.

Gardd Highgate – Cartref Lloyd George



Cegin Highgate



Amgueddfa Lloyd George – Llanystumdwy

Esiampiau o'r casgliad yn Llanystumdwy



Copi drafft o'r cytundeb heddwch efo sêl arian a torch llawryf – Roedd y sêl yn anrheg gan ei wraig Frances

DAVID LLOYD GEORGE



Plât coffa



Gwisg Gweinidogol Lloyd George



Tebot Lloyd George

Jygiau Lloyd George



Replica arian o gastell Cricieth – cyflwynwyd i Lloyd George- 1919



Casged Maenceinion – 1918

Gwybodaeth ychwanegol:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Hamdden-Parciau-Digwyddiadau/Amgueddfeydd-ar-Celfyddydau/Amgueddfa-Lloyd-George.aspx>

Am ffeithiau diddorol am David Lloyd George a'r Amgueddfa dilynwch yr Amgueddfa ar
Facebook @amgueddfalloydgeorgemuseum
Twitter @amgdllgmues
instagram @amgdllgmuseum